



**Law
Commission**
Diwygio'r Gyfraith



**PRIODI:
CRYNODEB O'R PAPUR
YMGYNGHORI CYFRAITH PRIODASAU**



GWYBODAETH AM YR YMGYNGHORIAD HWN

Pwy ydym ni? 	Mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan statud i wneud argymhellion i'r Llywodraeth i ddiwygio'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr.
Beth rydym yn ei wneud? 	Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ein darpar gynigion i ddiwygio'r gyfraith sy'n llywodraethu priodasau.
Am beth ydy hwn? 	Priodasau – y rheolau sy'n llywodraethu pa ffurfioldebau y mae'n rhaid i gwpl gydymffurfio â nhw er mwyn bod yn briod yn gyfreithiol, yn amrywio o roi rhybudd hyd at gofrestru'r briodas.
Pam rydym yn ymgynghori? 	Rydym yn ceisio barn ar ein darpar gynigion ac yn gofyn cwestiynau. Bydd eich barn yn cael ei hystyried yn ofalus pan fyddwn yn penderfynu ar ein hargymhellion terfynol.
Gan bwy yr ydym am glywed? 	Rydym yn awyddus i dderbyn sylwadau gan gynifer o randdeiliaid â phosibl, p'un a ydynt yn cytuno neu'n anghytuno â'n darpar gynigion. Mae rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn cynnwys sefydliadau crefyddol, sefydliadau cred anghrefyddol, awdurdodau lleol, busnesau lleoliadau priodasau, ac aelodau'r cyhoedd.
Beth yw'r dyddiad cau? 	Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 3 Rhagfyr 2020.
Beth sy'n digwydd nesaf? 	Ar ôl adolygu'r ymatebion, byddwn yn penderfynu ar ein hargymhellion terfynol ar gyfer diwygio'r gyfraith, y byddwn yn eu cyhoeddi yn ein hadroddiad terfynol ar y prosiect.

Y GRYNODEB HON

Nid yw'r Gynodeb hon yn crynhoi'r holl ddarpar gynigion a chwestiynau a nodir yn ein Papur Ymgynghori manwl. Yn hytrach, mae'n amlygu'r gyfraith gyfredol a'n cynigion ar faterion allweddol. Dim ond trosolwg o'r materion hynny y mae'r gynodeb hon yn ei darparu.

Cyn ymateb, fe'ch anogir i ddarllen ein Papur Ymgynghori llawn, neu'r rhannau perthnasol

ohono. Nid oes yn rhaid i chi ymateb i bob cwestiwn yn ein hymgyngghoriad. Rydym am glywed gennych hyd yn oed os oes gennych farn ar un neu ychydig o'r cwestiynau a ofynnwn yn unig.

Mae cyfeiriadau yn y Gynodeb hon at benodau'r Papur Ymgynghori.

Mae'r Gynodeb hon a P 3 yn y Papur Ymgynghori yn darparu trosolwg o'n cynllun arfaethedig.

Efallai y bydd gan rai rhanddeiliaid ddiddordeb penodol mewn penodau arbennig, sy'n ymdrin ag agweddau ar ein cynllun arfaethedig yn fanylach:

- Awdurdodau lleol: P 4 P 6 P 7 P 8 ac P 12
- Yr Eglwys yng Nghymru ac Eglwys Loegr: P 4 P 5 P 6 P 7 ac P 8
- Grwpiau crefyddol sy'n cynnal priodasau mewn adeiladau cofrestredig: P 5 P 6 ac P 7
- Grwpiau Iddewon a'r Gymdeithas Gyfeillgar: P 5 ac P 6
- Grwpiau credoau anghrefyddol: P 5 P 6 ac P 7
- Dathlwyr annibynnol: P 5 P 6 ac P 7
- Lleoliadau priodas: P 7
- Cyplau ac aelodau eraill o'r cyhoedd: P 1 P 5 P 6 ac P 7

YMATEB I'N YMGYNGHORIAD

Mae'r Papur Ymgynghori ar gael ar ein gwefan yn www.lawcom.gov.uk/project/weddings/


Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 3 Rhagfyr 2020.

Gellir anfon sylwadau atom gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein, sydd ar gael ar ein gwefan yn consult.justice.gov.uk/law-commission/weddings. Lle bo hynny'n bosibl, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r ffurflen hon yn cael ei defnyddio. Fel arall, gellir anfon sylwadau:

1. trwy e-bost at weddings@lawcommission.gov.uk; neu
2. trwy'r post at
Weddings Team,
Comisiwn y Gyfraith, 1st Floor,
52 Queen Anne's Gate,
Llundain, SW1H 9AG.
(Os anfonwch eich sylwadau trwy'r post, byddai'n ddefnyddiol pe gallech hefyd eu hanfon yn electronig lle bynnag y bo hynny'n bosibl.)

Gofynnwn i ymgynghorwyr osgoi cynnwys gwybodaeth bersonol adnabyddadwy neu wybodaeth fasnachol gyfrinachol yn nhestun eu hymateb.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal ei ymgynghoriadau, a'n polisi ar gyfrinachedd ymatebion ymgynghorwyr, gweler tudalennau i a ii o'r Papur Ymgynghori.



Pandemig COVID-19

Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar bawb. Yn ogystal â'r colli bywydau trychinebus, gohiriwyd bywyd beunyddiol yng Nghymru a Lloegr ac ar draws y byd. O ganlyniad i fesurau brys a gyflwynwyd ar 23 Mawrth 2020 i atal COVID-19 rhag lledaenu, nid oedd priodasau'n gallu bwrw ymlaen, gyda llawer o gyplau yn gorfod aildrefnu neu ganslo eu priodasau.

Oherwydd y pandemig, gwnaethom ohirio cyhoeddi ein Papur Ymgynghori. Mae ymgynghori yn ganolog i'n holl brosiectau, ac yn hollbwysig i'n gallu i wneud argymhellion ar gyfer diwygiad i'r Llywodraeth. Nid oeddem yn meddwl bod yr amgylchiadau diweddar yn caniatáu i ni ymgynghori'n ystyrlon. Ar ben hynny, roeddem yn ymwybodol iawn o sensitifrwydd ymgynghori ar gyfraith priodasau ar adeg pan nad oedd priodasau'n gallu bwrw ymlaen. Fodd bynnag, roeddem wedi drafftio'r mwyafrif o'r Papur Ymgynghori cyn yr argyfwng iechyd cyhoeddus. Felly, nid yw'r pandemig, a'i effaith ar briodasau yn rhan o'n trafodaethau am y gyfraith gyfredol a'n cynigion ar gyfer diwygio cyffredinol yn y papur.

Ond mae'n bwysig bod yr ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i ystyried effaith pandemig COVID-19 ar gyfraith priodasau. Ni fydd ein prosiect yn gallu darparu atebion i unigolion y mae eu cynlluniau priodas wedi'u difetha gan y pandemig presennol. Mae hyn oherwydd nad yw cwmpas y prosiect hwn yn cynnwys edrych ar gyfraith contract, cyfraith diogelu defnyddwyr neu gyfraith yswiriant, felly ni fyddwn yn ystyried materion sy'n codi rhwng cyplau a gwerthwyr ynghylch priodasau sydd wedi'u gohirio neu eu canslo. Fodd bynnag, gallwn ddysgu o'r hyn sydd wedi digwydd i sicrhau bod cyfraith priodasau diwygiedig yn wydn, ac yn gallu ymateb yn effeithiol mewn achos o amharu pellach ar raddfa debyg.

Er mwyn gwneud hynny, mae angen i ni ddeall yr effaith mae'r pandemig wedi'i chael ar bobl – cyplau sy'n cynllunio eu priodasau, awdurdodau lleol, grwpiau crefyddol ac eraill sy'n ymwneud â phriodasau – ac felly gofynnwn i ymgynghoreion ddweud wrthym am eu profiadau. Gweler [P 1](#).

Rydym yn ystyried sut y byddai ein darpar gynllun arfaethedig yn gweithredu yn ystod argyfwng cenedlaethol, ac a oes angen diwygio penodol i ganiatáu i'r rheolau sy'n llywodraeth priodasau gael eu haddasu i sefyllfa argyfwng cenedlaethol. Nid ydym wedi canolbwyntio'n ar bandemig yn unig, ond wedi ystyried unrhyw argyfwng pan na all pobl gwrdd yn bersonol. Rydym yn gwneud darpar gynnig ar gyfer cynllun argyfwng y gellid ei ddwyn i rym yn ystod argyfwng cenedlaethol yn y dyfodol, a fyddai'n caniatáu i briodasau fynd yn eu blaen, gan gynnwys trwy ganiatáu i briodasau ddigwydd gyda phob person yn cymryd rhan trwy gyswilt clyweledol. Gweler [P 11](#).

UCHAFBWYNTIAU EIN CYNLLUN ARFAETHEDIG

Rydym yn argymhell cynllun deddfwriaethol newydd cynhwysfawr i ddisodli'r gyfraith priodasau, or-gyfngol gyfredol sydd wedi dyddio, y mae llawer ohoni yn dyddio o 1836.

Mae ein darpar gynllun yn



caniatáu i unigolion roi rhybudd o'u priodas arfaethedig o bell, a dewis yr ardal gofrestru lle cânt eu cyfweiliad personol.



darparu ar gyfer cyhoeddiad ar-lein o briodasau sydd ar y gweill a fydd yn hygyrch i'r gymuned ehangach.

caniatáu i gyplau briodi ar longau mordeithio sydd wedi'u cofrestru yn y DU gyda phorthladd cartref yng Nghymru neu Loegr.



darparu fframwaith a allai ganiatáu i sefydliadau cred anghrefyddol (fel Dyneiddwyr) a/neu dathlwyr annibynnol gynnal priodasau sy'n rhwymo mewn cyfraith, pe bai'r Llywodraeth yn penderfynu galluogi'r naill neu'r ddau i wneud hynny.

egluro'r goblygiadau pan nad yw cwpl wedi cydymffurfio â'r ffurfioldebau gofynnol, ac yn sicrhau bod llai o briodasau a gynhelir yn ôl defodau crefyddol yn arwain at briodas nad yw'r gyfraith yn ei chydabod o gwbl.



caniatáu i gyplau a grwpiau crefyddol (ac, os cânt eu galluogi i gynnal priodasau, grwpiau cred anghrefyddol) ddewis ble mae eu priodasau'n cael eu cynnal, heb gyfyngiadau a chostau diangen. Byddai hyn yn caniatáu i briodasau ddigwydd yn yr awyr agored (er enghraifft ar draethau, mewn parciau, mewn gerddi preifat ac ar dir lleoliadau priodasau cyfredol) ac mewn amrywiaeth ehangach o adeiladau (er enghraifft mewn cartrefi preifat neu ar safleoedd milwrol).

caniatáu i bob cwpl a grŵp crefyddol (ac, os cânt eu galluogi i gynnal priodasau, grwpiau cred anghrefyddol) ddewis y ffurf y bydd eu seremonïau priodas yn ei chymryd, gan alluogi'r gyfraith i gydnabod yr amrywiaeth o seremonïau y mae pobl yn eu defnyddio i farcio'u priodasau, gan gynnwys seremonïau crefyddol.

Termau a ddefnyddiwn yn y Papur Ymgynghori

“Anglicanaidd”: Eglwys Loegr a’r Eglwys yng Nghymru. Mae’r sefydliadau hyn yn cael eu trin yn wahanol i sefydliadau crefyddol eraill o dan gyfraith briodasau.

“Atodlen”: dogfen a gyhoeddir gan y gwasanaeth cofrestru fel rhan o ragarweiniadau sifil, sy’n awdurdodi priodas y cwpl, ac a ddefnyddir i gofrestru eu priodas. Defnyddir system atodlen yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, a rhagwelir y bydd yn cael ei chyflwyno yng Nghymru a Lloegr gan reoliadau i’w gwneud o dan y Ddeddf Partneriaethau Sifil, Priodasau a Marwolaethau (Cofrestru ac ati) 2019.

“Dirymadwy”: mae priodas yn ddirymadwy os gellir sefydlu meini prawf penodol, er enghraifft, peidio â chyflawni’r briodas. Yn wahanol i briodas ddi-rym, mae priodas ddirymadwy yn briodas ddilys nes iddi gael ei dirymu gan archddyfarniad dirymedd.

“Gweinydd”: o dan ein darpar gynllun arfaethedig, byddai gweinydd yn mynychu pob priodas, a fyddai’n â chyfrifoldebau cyfreithiol penodol. Gallai’r gweinydd, ond ni fyddai’n ofynnol iddynt, arwain y seremoni.

“Gwladolyn perthnasol”: dinesydd Prydeinig, dinesydd Ardal Economaidd Ewropeaidd neu ddinesydd Swisaidd.

“Priodas dan orfod”: priodas yr ymrwymodd un neu’r ddau parti iddi heb gydsyniad rhydd a llawn oherwydd trais, bygythiadau neu unrhyw fath arall o orfodaeth.

“Priodas ddi-rym”, “priodas annilys” ac “osgoi priodas”: priodas ddi-rym neu briodas sydd wedi’i hosgoi, sy’n annilys neu’n ddi-rym, sy’n golygu bod y briodas yn cael ei thrin fel un nad yw erioed wedi dod i fodolaeth. Mae gan y partïon mewn priodas ddi-rym hawl i wneud cais am ryddhad ariannol, fel pe baent yn ysgaru; nid yw hyn yn wir am bartïon mewn seremoni anghymwys.

“Priodas ffug”: priodas rhwng partïon nad yw o leiaf un ohonynt yn ddinesydd perthnasol, a lle nad oes perthynas wirioneddol rhyngddynt a naill ai un neu’r ddau wedi ymrwymo i’r briodas at ddibenion ennill mantais mewnffudo.

“Rhagarweiniadau”: y camau y mae’n rhaid eu cymryd cyn i gwpl gael ei awdurdodi i gael priodas sy’n rhwymo mewn cyfraith. Mae rhagarweiniadau yn sicrhau nad oes unrhyw rwystrau i gwpl briodi ei gilydd (er enghraifft, priodas flaenorol neu fod cysylltiad agos rhwng y cwpl), ac yn helpu i ganfod priodas ffug a gwarchod rhag priodas dan orfod. Mae rhagarweiniadau sifil yn cael eu cynnal gan gofrestryddion arolygol a’r Cofrestrydd Cyffredinol; cynhelir rhagarweiniadau Anglicanaidd gan Eglwys Loegr a’r Eglwys yng Nghymru.

“Sefydliad cred anghrefyddol”: sefydliad sy’n proffesu system gred seciwlar sy’n honni ei fod yn egluro natur a pherthynas dynoliaeth â’r bydysawd, ac i ddysgu i’w ymlynwyr sut y maent i fyw eu bywydau yn unol â’r ddealltwriaeth sy’n gysylltiedig â’r system gred.

“Seremoni anghymwys”: seremoni sy’n arwain at briodas nad yw’n briodas ddilys nac yn ddi-rym oherwydd nad oedd y seremoni briodas yn cydymffurfio â’r ffurfioldebau gofynnol o dan y gyfraith.

Y GYFRAITH GYFREDOL

P 1 a P 2

Mae “cyfraith priodasau” yn golygu’r holl ffurfioldebau y mae’n ofynnol i gwpl fynd drwyddynt er mwyn cael priodas a gydnabyddir yn gyfreithiol. Mae’r gyfraith sy’n llywodraethu priodasau yn cynnwys y rhagarweiniadau i’r briodas (a elwir hefyd yn rhoi rhybudd), rheolau ynghylch y seremoni ei hun, gan gynnwys lle y gallai gael ei chynnal, pwy sy’n gorfod mynychu a beth sy’n rhaid ei ddweud, a chofrestru’r briodas.



Mae Deddf Priodasau 1949 yn llywodraethu priodasau yng Nghymru a Lloegr.

Mae’r gyfraith gyfredol yn ddrysfa gymhleth o wahanol reolau ar gyfer gwahanol fathau o seremonïau.

Mae’n rhaid i gyplau ddewis rhwng seremoni sifil neu grefyddol.

Rhennir seremonïau crefyddol ymhellach gan y gyfraith yn bedwar math gwahanol:

- Anglicanaidd (sy’n golygu Eglwys Loegr a’r Eglwys yng Nghymru),
- Iddewig,
- Crynwyr (sy’n golygu Cymdeithas y Cyfeillion), ac
- unrhyw grŵp crefyddol arall.

Gall cyplau sy’n cael priodas Anglicanaidd gael awdurdod i briodi gan yr eglwys; rhaid i bob cwpl arall rhoi rhybudd yn y swyddfa gofrestru

Heb lawer o eithriadau, rhaid i bob cwpl gael eu priodas naill ai mewn lleoliad addoli neu mewn lleoliad seciwlar trwyddedig;¹ ni allant briodi yn yr awyr agored, hyd yn oed yng ngardd lleoliad trwyddedig. Mae priodasau Iddewig a Chrynwyr, ac i raddau hefyd briodasau Anglicanaidd, wedi’u heithrio o’r rheolau llym hyn ynghylch lleoliad.

Ar hyn o bryd, nid oes gan gyplau unrhyw opsiwn i gael seremoni sy’n adlewyrchu credoau anghrefyddol (megis credoau Dyneiddwyr). Ni hwylusir priodasau rhyngffydd – sy’n cyfuno elfennau o wahanol draddodiadau – ac nid oes gan gyplau unrhyw ddewis cynnwys dim mwy na chynnwys crefyddol atodol yn eu priodasau sifil.


¹ Naill ai mewn swyddfa gofrestru neu mewn adeilad cymeradwy.



LLWYBRAU I BRIODAS



Gweinyddu priodasau o dan Ddeddf Priodasau 1949



- ◆ O dan Ran III Deddf Priodasau 1949: Priodasau o dan Dystysgrif y Cofrestrydd Arolygol
- ◆ O dan Ran II Deddf Priodasau 1949: Priodas yn ôl defodau Eglwys Loegr

Os yw cwpl yn methu â chydymffurfio, naill ai'n fwriadol neu heb sylweddoli, â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer priodas, efallai na fydd y gyfraith yn eu cydnabod fel rhai sy'n briod yn gyfreithiol. Mae'r risg yn codi amlaf gyda rhai seremonïau priodas grefyddol. Yn aml, dim ond pan fydd eu perthynas yn chwalu, neu ar farwolaeth un ohonynt y mae cyplau'n darganfod eu diffyg statws gyfreithiol. Pan fydd hynny'n digwydd, efallai na fydd gan y partion unrhyw hawliau cyfreithiol yn erbyn ei gilydd, nac yn erbyn eu hystâd os yw un ohonynt wedi marw. Yn ymarferol, bydd effaith y sefyllfa hon yn cael ei themlo gan y parti sy'n wannach yn ariannol, menywod yn anghymesur, a gall achosi caledi i unrhyw blant yn y berthynas.

Mae'r gyfraith gyfredol wedi datblygu'n gynyddol dros y canrifoedd. Roedd Deddf Priodasau 1949 yn fesur cydgrynhoi nad oedd yn newid y gyfraith yn sylfaenol. Mae elfennau canolog y gyfraith yn dyddio o lawer cynharach: y 18fed a 19eg ganrif.



Fodd bynnag, heb amheuaeth, mae Cymru a Lloegr wedi profi newidiadau cymdeithasol dwys ers i elfennau canolog cyfraith priodasau gael eu setlo yn ystod y ddwy ganrif ddiwethaf. Fel cymdeithas, rydym yn llawer mwy amrywiol yn ddiwylliannol ac yn grefyddol, ac rydym yn llawer mwy seciwlar.

Nid yw'n syndod felly nad yw'r gyfraith yn gweithio i lawer. Mae'n cyfyngu ar y modd y caniateir i gyplau ddathlu eu priodasau, am resymau polisi hanesyddol yn hytrach na rhai cyfredol. I lawer o gyplau, mae sut maen nhw'n dymuno dathlu eu priodas, a sut mae'r gyfraith yn mynnu eu bod yn dathlu, yn aml yn gwrthdaro. Oherwydd y rheoleiddio diangen, ni all llawer o gyplau briodi mewn lle sy'n ystyrlon iddynt a ac na allant gael seremoni gyda'r addunedau, defodau a cherddoriaeth sy'n adlewyrchu eu credoau.

Mae rhai cyplau yn dilyn eu traddodiadau crefyddol eu hunain ac yn dathlu mewn ffordd nad yw'r gyfraith yn ei gydnabod o gwbl, gan aberthu amddiffyniadau priodas gyfreithiol. Mae eraill yn cael – ac yn talu am – dwy briodas: un sy'n bodloni'r gofynion cyfreithiol, ac un sy'n bodloni eu credoau a'u dyheadau eu hunain. Gall eraill deithio i awdurdodaeth arall sy'n caniatáu ystod ehangach o briodasau. Gall eraill ddewis peidio â phridi o gwbl.



ENGHREIFFTIAU O BROBLEMAU GYDA'R GYFRAITH GYFREDOL



Anghysondeb a chymhlethdod

Nid oes unrhyw ofynion cyffredinol ar gyfer pwy sy'n gorfod mynychu priodas. Mae'r gofynion statudol yn amrywio yn dibynnu ar y fath o briodas.

- Rhaid i ddau swyddog cofrestru fynychu priodasau sifil – cofrestrydd arolygol a chofrestrydd yr ardal gofrestru – a dau dyst.
- Rhaid i bersonau mewn Urddau Eglwysig a dau dyst fynychu priodasau Anglicanaidd.
- Rhaid i gofrestrydd yr ardal gofrestru neu berson awdurdodedig yr addoldy a dau dyst fynychu priodasau crefyddol eraill (ac eithrio priodasau Iddewig a Chrynwyr).
- Nid oes rhaid i unrhyw un fynychu priodasau Iddewig a Chrynwyr: nid y sawl sy'n cofrestru'r briodas na thystion. Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau penodol gofrestru'r priodasau hynny, ac mae'n ofynnol i dystion lofnodi'r ffurflenni cofrestru.



Aneffeithlonrwydd

Mae'r gyfraith gyfredol yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n rhoi rhybudd trwy ragarweiniadau sifil wneud hynny'n bersonol yn yr ardal gofrestru lle maent wedi preswyllo am y saith niwrnod diwethaf. Nid yw'r gofyniad preswyllo hwn yn gweithredu unrhyw bwrpas clir.

Yna rhoddir rhybudd o'r briodas a fwriadwyd trwy ei bostio yn y swyddfa gofrestru leol. Yn y gymdeithas drefol a symudol sy'n bodoli i raddau helaeth heddiw, nid yw postio'r rhybudd yn y swyddfa gofrestru leol yn ffordd effeithiol o ddarganfod rhwystrau cyfreithiol i briodas (fel priodas flaenorol yn bodoli).



Rheoleiddio diangen a chostus

Mae gan y gyfraith gyfredol lawer o reoliadau manwl ynghylch yr eiddo y gellir ei gymeradwyo ar gyfer priodasau sifil. Mae'r rheolau hyn a'r broses ymgeisio yn aml yn gosod costau sylweddol ar leoliadau sydd am gynnal priodasau sifil. Gall costau cymeradwyo a chydymffurfio fod yn rhy ddrud i rai

busnesau bach, nad ydynt felly'n gallu cynnig y gwasanaethau hyn i'r cyhoedd.

Nid yw pwrpas y rheoliadau hyn yn glir. Nid yw'n ymddangos eu bod yn angenrheidiol o safbwynt diogelwch na rheoliadol. Ond ymddengys bod y canlyniad yn cyfyngu ar gystadleuaeth ymysg busnesau ac yn lleihau dewis a chynyddu costau i gyplau sy'n priodi.



Annheg a chyfyngol

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i gyplau naill ai gael priodas grefyddol neu briodas sifil.

- Nid oes unrhyw opsiwn i gael priodas yn ôl credoau sy'n anghrefyddol.
- Nid yw'r gyfraith yn darparu ar gyfer cyplau sydd â chredoau gwahanol, gan gynnwys cyplau sy'n cynnwys pobl o wahanol gredoau, a chyplau lle mae un person yn grefyddol a'r llall ddim. Yn gyffredinol, bydd yn rhaid i gyplau sydd eisiau priodas rhyngffydd ddewis rhwng seremoni sy'n adlewyrchu ffydd neu gredoau un a seremoni sy'n adlewyrchu ffydd neu gredoau y naill na'r llall.
- Nid yw'r gyfraith yn caniatáu i gyplau gynnwys elfennau mewn priodas sifil sy'n adlewyrchu credoau crefyddol.

Dim ond ar gyfer cyplau y mae eu credoau yn mynnu eu bod yn priodi y tu mewn, yn enwedig mathau penodol o leoliadau, y mae'r rheolau sy'n llywodraethu lle y gellir cynnal priodasau amrywiol. Mae'r rheolau yn

cyfyngu dewis cyplau o ran ble i briodi, ac nid yw'n amlwg bod rheswm da dros wneud hynny.

- Yn gyffredinol, rhaid i briodasau Anglicanaidd gael eu cynnal mewn eglwys neu gapel awdurdodedig. Heblaw am briodasau Iddewig neu Grynwyr, rhaid i bob priodas grefyddol arall gael ei chynnal mewn man addoli. Fodd bynnag, nid yw rhai grwpiau crefyddol yn gweld eu man addoli fel y lle gorau neu fwyaf ystyrlon i briodi: deallwn fod rhain yn cynnwys rhai Mwslemiaid, Jains, Hindwiaid, Bwdhyddion a Phaganiaid.
- Mae cyplau sy'n cael priodas sifil hefyd wedi'u cyfyngu gan reolau ar ble y gallant briodi. Maent wedi'u cyfyngu i swyddfeydd cofrestru ac eiddo cymeradwy. Er mwyn i eiddo gael ei gymeradwyo, trwy gais trwy'r awdurdod lleol, rhaid i'r eiddo fod yn strwythur ansymudol yn barhaol sy'n cynnwys o leiaf un ystafell, neu'n gwch neu long sydd wedi'i angori'n barhaol. Ni chaniateir lleoliadau awyr agored.

CWMPAS Y PROSIECT

P 1

Yn 2015, cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith adolygiad cwmpasu o gyfraith priodasau i nodi'r materion y byddai angen mynd i'r afael â hwy er mwyn datblygu cynigion ar gyfer diwygio. Gwnaethom gyhoeddi ein casgliadau o'r gwaith rhagarweiniol hwn yn *Getting Married: A Scoping Paper*.

Wedi'i hysbysu gan ein gwaith cynharach, nod ein prosiect cyfredol yw argymhell cyfraith priodasau diwygiedig sy'n caniatáu mwy o ddewis o fewn strwythur cyfreithiol syml, teg a chyson.

Yn ein Papur Cwmpasu, nodwyd pedair egwyddor diwygio. Bydd y rhain, yn ogystal ag un egwyddor ychwanegol, yn tanseilio ein hargymhellion ar gyfer diwygio.

- Sicrwydd a symlrwydd
- Tegwch a chydraddoldeb
- Gwarchod budd y wladwriaeth
- Parchu dymuniadau a chredoau unigolion
- Dileu unrhyw reoliad diangen, er mwyn cynyddu'r dewis a gostwng cost lleoliadau priodas i gyplau

Rydym yn ystyried -

- Y rhagarweiniadau cyfreithiol a ddylai fod yn ofynnol cyn priodas.
- Lle dylai priodasau allu gael eu cynnal, gan ystyried, er enghraifft, priodasau yn yr awyr agored, ar y môr, ac ar safleoedd milwrol, gyda'r bwriad o gael gwared ar reoliadau cyfyngol.
- Pa grwpiau ddylai allu cynnal priodasau cyfreithiol, gan gynnwys ystyried sut y gallai cynllun gynnwys priodasau a gynhelir gan sefydliadau cred anghrefyddol a dathlwyr annibynnol. Fodd bynnag, ni fydd Comisiwn y Gyfraith yn gwneud argymhellion ynghylch a ddylid caniatáu i grwpiau newydd, fel mater o bolisi, gynnal priodasau cyfreithiol-rwym fel mater o bolisi, sy'n benderfyniad i'r Llywodraeth.
- A ddylai fod angen addunedau penodol yn ystod seremoni.
- Sut y dylid cofrestru priodasau.
- Beth ddylai'r canlyniadau fod i gyplau nad ydynt yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion.

Rydym yn canolbwyntio ar gyfraith priodasau, sy'n golygu bod y materion canlynol y allan i gwmpas y prosiect -

- Pwy sy'n gymwys i briodi (er enghraifft, ar sail oedran neu allu meddyliol)
- Hawliau a chyfrifoldebau priodas
- Deddf ysgariad
- Cydnabod priodasau tramor
- Gwasanaethau priodas ategol (er enghraifft, blodau, arlwy, neu yswiriant)
- Ffurio partneriaethau sifil (gan mai mater i'r Llywodraeth fydd ystyried a ddylid gwneud darpariaeth gyfatebol ar gyfer seremonïau partneriaeth sifil).

Mae yna rhai materion polisi nad ydym yn eu hystyried yn y prosiect hwn -

- Cyflwyno priodas sifil gyffredinol (er y byddwn yn ystyried rhagarweiniadau sifil cyffredinol).
- Dyletswydd Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru i gynnal seremonïau priodas eu plwyfolion.
- Er y bydd yr adolygiad yn ystyried sut y gallai priodasau gan Ddyneiddwyr a sefydliadau cred anghrefyddol gael eu hymgorffori mewn cynllun diwygiedig neu newydd, a sut y gellid gwneud darpariaeth i ddathlwyr annibynnol gynnal priodasau, ni fydd Comisiwn y Gyfraith yn gwneud argymhellion ynghylch p'un a ddylid ehangu'r grwpiau a all weinyddu priodasau.
- A ddylid gorfodi grwpiau crefyddol i weinyddu priodasau cyplau o'r un rhyw ai peidio, a benderfynwyd gan y Senedd yn dilyn dadl gyhoeddus eang.

TROSOLWG O’N CYNLLUN ARFAETHEDIG

P 3

Credwn y byddai’r cynllun a gynigiwn yn gwneud y gyfraith yn syml, yn deg ac yn sicr. Yn ein barn gychwynnol, byddai’n amddiffyn budd cyfreithlon y wladoliaeth mewn cyfraith priodasau a buddiannau unigolion – yn y ddau achos i ddarparu eglurder a sicrwydd ynghylch a yw priodas yn cael ei chydabod yn gyfreithiol, ac i amddiffyn rhag priodasau dan orfod a ffug. Ar yr un pryd, mae ein cynllun yn ceisio dileu rheoliadau sy’n mynd y tu hwnt i’r hyn sy’n angenrheidiol i ddiogelu budd y wladwriaeth a buddiannau unigolion. Trwy sicrhau nad yw’r gyfraith yn rheoleiddio priodasau’n ddiangen neu’n anghyfiawn, mae ein cynllun arfaethedig yn ceisio caniatáu mwy o ryddid dewis i bob cwpl wrth briodi. Byddai’n galluogi pob cwpl i gael seremoni briodas sy’n ystyrlon iddyn nhw, gan warchod eu rhyddid mynegiant a chred.

Fodd bynnag, dim ond darpar gynllun yw ein cynllun arfaethedig, sy’n dangos ein meddwl cychwynnol. Bydd ein hargymhellion terfynol ar gyfer diwygio yn cael eu datblygu yng ngoleuni ymatebion yr ymgynghoriad. Rydym yn eich annog i ymateb i’n hymgynghoriad.



Rheoleiddio’r gweinydd, nid y lleoliad

Mae ein darpar cynllun yn seiliedig ar reoleiddio’r gweinydd. Mae hynny’n nodi newid sylweddol mewn ffocws o’r gyfraith gyfredol, y mae rheoleiddio wedi’i seilio’n gyffredinol ar yr adeilad lle mae’r briodas yn cael ei chynnal. Byddai’r newid yn dileu rhai o gyfyngiadau diangen y gyfraith gyfredol ac yn helpu i fynd i’r afael ag annhegwch wrth drin gwahanol grwpiau.



Rheolau cyffredinol ar gyfer pob priodas

Gydag ychydig iawn o eithriadau, o dan ein cynllun arfaethedig, byddai’r rheolau’n berthnasol i bob priodas. Eto, mae hyn yn wahanol i’r gyfraith gyfredol, lle mae gwahanol reolau yn aml yn berthnasol i briodasau Anglicanaidd, priodasau lldewig a Chrynwyr, priodasau crefyddol eraill, a phriodasau sifil.

Y Llwybr i Briodas

Rhagarweiniadau



Seremoni



Cofrestru



* Yn gyffredinol, rhaid i briodasau sy'n dilyn rhagarweiniadau Anglicanaidd ddigwydd cyn pen 3 mis, a rhaid iddynt ddigwydd mewn eglwys neu gapel Anglicanaidd neu'r lle a awdurdodir gan yr Eglwys. Gelwir y ddogfen sy'n awdurdodi'r briodas, a fydd yn cael ei llofnodi yn y seremoni, yn ddogfen briodas.


RHAGARWEINIADAU

P 4

Cyn priodi, byddai'n ofynnol i gyplau roi rhybudd o'u bwriad i briodi. Pwrpas rhagarweiniadau yw caniatáu i unrhyw rwystrau i briodas gael eu darganfod (er enghraifft, oedran, capasiti, priodas flaenorol, neu fod y cwpl yn perthyn yn rhy agos), a ganiatáu i ymchwiliadau gael eu cynnal i nodi priodasau dan orfod a ffug. Mae ein cynllun arfaethedig yn cyfeirio llawer o ffocws rheoleiddio ar y cam rhagarweiniadau: credwn, gyda rhagarweiniadau cadarn i warchod buddiannau'r wladwriaeth, y gallai'r gyfraith roi mwy o ddewis i gyplau am y seremoni briodas ei hun.

Oherwydd pwysigrwydd rhagarweiniadau i asesu a ddylai priodas fynd yn ei blaen, ac wrth warchod buddiannau'r wladwriaeth, ni fyddai priodas yn arwain at briodas ddilys pe na bai'r partïon wedi rhoi rhybudd.

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o gyplau roi rhybudd i'r gwasanaeth cofrestru. Fodd bynnag, gall gyplau sy'n cael priodas Anglicanaidd hefyd roi rhybudd i awdurdodau eglwysig, trwy ragarweiniadau Anglicanaidd, gan amlaf trwy alw gostegion. Gallai ein cynllun arfaethedig gadw'r systemau deuol presennol o ragarweiniadau, neu yn lle hynny gallai fod yn system o ragarweiniadau sifil cyffredinol.



Rhagarweiniadau sifil

Er mwyn rhoi rhybudd o fwriad i briodi, ni fyddai angen i unigolyn fod yn preswyllo yn yr ardal gofrestru lle mae'n rhoi rhybudd. Ni fyddai rhagarweiniadau sifil bellach ynghlwm wrth reolau ynghylch ardaloedd cofrestru.

Byddai'n ofynnol i bob aelod o'r cwpl roi o leiaf 28 diwrnod o rybudd o'r briodas a fwriadwyd. Byddai eithriad yn parhau i'r rheini nad ydynt yn ddinasyddion perthnasol (sy'n golygu rhywun nad yw'n ddinesydd Prydeinig, dinesydd Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'n wladolyn o'r Swistir) sydd â statws mewnfudo penodol, a allai fod yn destun cyfnod aros estynedig o 70 diwrnod. Byddai disgresiwn yn hefyd yn parhau i'r cyfnod aros gael ei fyrhau am resymau gorfodol, a hawl i'r cyfnod aros gael ei fyrhau i bobl sy'n derfynol wael.

Byddai'r broses rhybudd yn cael ei rhannu'n ddau gam:



rhoi rhybudd cychwynnol, a allai ddigwydd o bell (er enghraifft, trwy'r post neu ar-lein); a



chyfarfod personol â swyddog cofrestru.

Byddai'r ddau gam yn gallu digwydd ar yr un pryd, fel y gwnânt ar hyn o bryd, gydag unigolyn yn rhoi rhybudd yn bersonol. Fodd bynnag, byddai'r camau hefyd yn gallu cael eu cymryd ar wahân, gyda'r cyntaf, rhoi rhybudd, yn dechrau'r cyfnod aros o 28 diwrnod.² Bydd rhannu'r broses yn ddau gam yn cael y fantais sylweddol o hwyluso cyplau o Brydain neu dramor nad ydyn nhw'n preswyllo yng Nghymru a Lloegr i briodi yma, trwy ddileu'r gofyniad eu bod nhw'n teithio i Gymru a Lloegr ddwywaith neu am o leiaf pum wythnos.

I roi rhybudd, byddai'n ofynnol i bob parti gyflwyno cais, gan ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth o'u hunaniaeth, gan gynnwys eu cenedligrwydd. Byddai'n ofynnol i'r parti'n nodi eu swyddog dewisol, er mwyn caniatáu i'r gwasanaeth cofrestru sicrhau bod y person wedi'i awdurdodi i weithredu fel gweinydd. Byddai pob parti hefyd yn nodi'r swyddfa gofrestru lle bydd y cyfarfod personol yn cael ei gynnal, fel y gallent ddewis yr un fwyaf cyfleus iddynt, p'un a yw'n agos at eu gwaith, eu cartref, neu lle'r oeddent yn priodi.

Byddai'n ofynnol o hyd i gyplau y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith mewnfudo iddynt roi rhybudd mewn swyddfa gofrestru ddynodedig ar hyn o bryd (hynny yw, y mwyafrif o gyplau lle nad yw un o'r cwpl yn wladolyn perthnasol) gael eu cyfweliad personol mewn swyddfa gofrestru ddynodedig. Byddai rhywun a oedd yn derfynol wael, yn gaeth i'w gartref neu'n cael ei gadw yn gallu nodi bod angen i swyddog gofrestru deithio atynt er mwyn cwblhau'r broses rhybudd.

I roi rhybudd, byddai'n rhaid talu'r ffi a ragnodir yn genedlaethol i gyd-fynd â'r cais. Gallai fod ffi wahanol i bobl nad ydynt yn ddinasyddion perthnasol fel sydd o dan y gyfraith gyfredol, i adlewyrchu'r gwiriadau ychwanegol y gallai'r wladwriaeth eu gwneud i ymchwilio i briodasau ffug posibl. Gallai fod ffioedd gwahanol hefyd ar gyfer rhywun sy'n gaeth i'w gartref neu sy'n cael ei gadw yn y ddalfa, ac i rywun sy'n derfynol wael. Byddai pob ffi yn cael ei chyfrifo as sail asesiad ledled Cymru a Lloegr o'r gost gyfartalog i awdurdodau lleol am ddarparu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, rydym yn ystyried a ddylai'r ffi am berson sy'n derfynol wael gael ei gosod yn is na'r lefel adennill costau, ar sail dosturiol.

² Bydd angen ystyriaeth ar wahân i gyplau nad yw'r naill na'r llall yn bobl eithriedig – sy'n golygu nad ydynt yn ddinasyddion perthnasol, nad oes ganddynt y statws mewnfudo priodol, ac nad oes ganddynt nhw fisa perthnasol. Mae'n ofynnol i'r unigolion hyn roi rhybudd mewn swyddfa gofrestru dynodedig ac maent yn destun i'w cyfnod rhybudd gael ei estyn i 70 diwrnod gan yr Ysgrifennydd Gwladol i ymchwilio a yw'r briodas yn ffug.

Unwaith y rhoddwydd rhybudd, byddai'r gwasanaeth cofrestru'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r briodas arfaethedig ar gronfa ddata genedlaethol o rybuddion ar-lein, y gallai aelodau'r cyhoedd gael mynediad iddi hefyd mewn unrhyw swyddfa gofrestru. Byddai'r cofnod yn nodi enwau pob parti. Gallai rhywun a welodd y rhybudd ac a oedd yn gwybod am rwystr gysylltu â'r gwasanaethau cofrestru i ffeilio gwrthwynebiad.

Byddai'n ofynnol i'r ail gyfnod, y cyfarfod personol, gael ei gynnal cyn y gallai'r gwasanaeth cofrestru awdurdodi'r briodas i ddigwydd. Rydym wedi gofyn a ddylai fod yn ofynnol i'r cyfarfod fod yn dri, saith, neu nifer arall o ddyddiau cyn rhoi awdurdod. Byddai'r cyfarfod hwn yn rhoi cyfle i'r swyddog cofrestru wirio bod y dogfennau gwreiddiol yn cyfateb i'r copïau a roddwyd yn y cais rhybudd, gan sicrhau bod y person sy'n rhoi rhybudd yr un person a nodwyd yn y cais. Trwy sicrhau bod pob parti yn cael ei weld ar ei ben ei hun, byddai hefyd yn gyfle

i'r swyddog cofrestru gynnig cefnogaeth (neu i'r awdurdod lleol wneud cais am orchymyn amddiffyn priodas dan orfod) pe bai pryderon bod un o'r partïon yn cael ei orfodi i mewn i'r briodas.

I'r mwyafrif o bobl, byddai'r cyfarfod hwn yn cael ei gynnal mewn swyddfa gofrestru. Fodd bynnag, byddai'r swyddog cofrestru yn parhau i deithio i bobl sy'n gaeth i'r cartref, wedi'u cadw neu'n derfynol wael er mwyn cael y cyfarfod personol.

Rydym yn ystyried y bosibilrwydd y dylai'r cyfarfod hwn allu gael ei gynnal o bell, gan ddefnyddio technoleg, er enghraifft, trwy gynhadledd fideo. Cyn y gellid cyflwyno cyfweiliadau o bell, fodd bynnag, byddai angen craffu'n ofalus ar y broses i sicrhau bod mesurau diogelwch ar waith i alluogi pobl a allai fod mewn perygl o briodi dan orfod i ofyn am gyngor neu gefnogaeth gan y swyddog cofrestru yn ystod y cyfweiliad.





